Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar ddarpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned

## Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Caerdydd a'r Fro

Coleg Caerdydd a'r Fro,
Campws Canol y Ddinas,
Dumballs Rd,
Caerdydd
CF10 5FE

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Phartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Caerdydd a'r Fro

Sefydlwyd Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Caerdydd a'r Fro yn 2013 o bartneriaethau dysgu oedolion blaenorol Caerdydd a Bro Morgannwg. Mae pedwar prif bartner cyflenwi, sef: Coleg Caerdydd a'r Fro, Cyngor Caerdydd, Cyngor Bro Morgannwg ac Addysg Oedolion Cymru. Mae'r bartneriaeth yn gwasanaethu prifddinas Cymru, Caerdydd, ac awdurdod lleol cyfagos Bro Morgannwg, sy'n wledig i raddau helaeth, ac yn cynnig darpariaeth mewn ystod o leoliadau, gan gynnwys canolfannau cymunedol, llyfrgelloedd a champysau'r coleg.

Mae cyfrifiad 2021 yn adrodd bod poblogaeth o 362,400 yng Nghaerdydd, a 131,800 ym Mro Morgannwg. Mae twf poblogaeth y ddwy ardal uwchlaw cyfartaledd Cymru ers y cyfrifiad diwethaf yn 2011 (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2022). Mae cyfran y preswylwyr sy'n 65 oed neu'n hŷn yn is yng Nghaerdydd (14.5%) na chyfartaledd Cymru, sef 21.3%. Ym Mro Morgannwg, mae 21.9% o breswylwyr yn 65 oed neu'n hŷn – sydd ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2022).

Mae cyfrifiad 2021 yn amcangyfrif mai yng Nghaerdydd mae'r gyfran uchaf yng Nghymru o drigolion sydd wedi cael eu geni y tu allan i'r DU, sef 16.5%, o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 6.9% (Llywodraeth Cymru, 2022; Ffigur 2). Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019 yn dangos bod 18% o gymdogaethau Caerdydd yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2019; Tabl 3). Mae anghyfartalwch nodedig mewn cyfoeth rhwng gogledd a de'r ddinas, a'r mwyafrif o amddifadedd yn y de. Mae hyn yn ffurfio patrwm sy'n cael ei ddisgrifio fel 'cylchran ddeheuol' o amddifadedd. Felly, mae ystadegau'n ymwneud ag amddifadedd a lles yng Nghaerdydd yn peintio darlun sy'n wahanol yn ddaearyddol. Mae rhai poblogaethau yn fwy tebygol o ddioddef canlyniadau amddifadedd ar draws y dangosyddion hyn gan eu bod yn fwy tebygol o fyw yn y gylchran ddeheuol, er enghraifft y poblogaethau Pobl Ddu ac Ethnig Leiafrifol a'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr Roma. Mae'r bwlch mewn cyrhaeddiad addysgol yr un mor ddifrifol, ac yn gyffredinol, mae lefelau cymwysterau oedolion sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig yn is, ar y cyfan, na'u cymheiriaid sy'n byw yng ngogledd Caerdydd.

Ym Mro Morgannwg, Y Barri yw'r dref fwyaf a chanolbwynt gweinyddu yn y sir. Mae cyfran fawr o'r boblogaeth yn byw mewn lleoliadau gwledig, pentrefi, pentrefannau ac ar ffermydd. Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn dangos bod 4% o gymdogaethau yn y sir yn y 10% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2019; Tabl 3). Mae pedair o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf (gynt) Bro Morgannwg i gyd yn Y Barri.

Yn 2021, roedd cyfran uwch na'r cyfartaledd o oedolion oedran gweithio Caerdydd a Bro Morgannwg yn gymwys i lefel 4 neu'n uwch, gyda 47.7% a 52.7% yn y drefn honno, o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 41.6%; a chyfran is na'r cyfartaledd o oedolion oedran gweithio heb unrhyw gymwysterau, sef 7.6% a 3.1% yn y drefn honno, o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 8.1% (Ystadegau Cymru, 2022).

Yn 2022, roedd lefelau is o anweithgarwch economaidd yn y ddwy ardal (rhwng 16 a 64 oed, ac eithrio myfyrwyr), gyda 20.3% ac 13.4% o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 20.7% (Ystadegau Cymru, 2022).

Yn ôl Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer 2022 (Ystadegau Cymru, 2022), canran y bobl yng Nghaerdydd sy'n dair oed ac yn hŷn a ymatebodd i'r cwestiwn i ddweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg yw 28.5% o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 29.7%. Ym Mro Morgannwg, mae'r ffigur yn is, sef 20.7%.

Mae'r bartneriaeth yn cyflogi 193 o staff addysgu rhan-amser a 43 o staff addysgu amser llawn. Mae tua 5,800 o ddysgwyr wedi'u cofrestru ar gyrsiau, y mae 2,200 ohonynt yn ddysgwyr Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (SSIE).

## Crynodeb

Mae hon yn bartneriaeth hynod effeithiol sydd â gweledigaeth glir ac eglur ar gyfer ei diben, ei chyfeiriad a'i darpariaeth. Mae'r weledigaeth wedi'i gwreiddio yn ymrwymiad y bartneriaeth i wella'r cyfleoedd bywyd ar gyfer oedolion sy'n ddysgwyr yn ei chymunedau amrywiol. Mae'r pedwar partner yn rhannu a deall gweledigaeth y bartneriaeth ac yn gweithio'n effeithiol, yn gydweithredol ac yn arloesol. Mae arweinwyr strategol yn weithredol o ran ffurfio a chyfrannu at y drafodaeth genedlaethol am ddyfodol dysgu oedolion yn y gymuned.

Ers ei ffurfio yn 2013, mae'r bartneriaeth wedi gweddnewid i fod yn gorff sefydledig ac aeddfed, gyda threfniadau gweithio teg, cydlynol ac agored, a chyfathrebu cryf rhwng partneriaid.

Mae'r bartneriaeth yn darparu ystod eang o gyrsiau achrededig a heb eu hachredu i ddiwallu anghenion amrywiol y dysgwyr yn ei chymunedau, gan gynnwys cyrsiau llythrennedd, rhifedd, medrau digidol a Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (SSIE) yn rhad ac am ddim. Yn benodol, mae'r bartneriaeth yn gweithio'n effeithiol ac yn gydlynus i gyflwyno rhaglenni sydd wedi'u teilwra'n dda i'r farchnad lafur leol i helpu oedolion i ddod o hyd i gyflogaeth. Mae'r bartneriaeth hefyd yn darparu ystod ddeniadol o gyrsiau diddordeb personol, fel creu gemwaith a gofaint arian, ysgrifennu creadigol, 'tyfu'ch llysiau eich hun' a sgwrsio uwch mewn Ffrangeg, y mae dysgwyr yn talu'r gost lawn amdanynt.

Mae dysgwyr yn gwneud cynnydd cryf yn eu dysgu, ac yn cynhyrchu gwaith o safon uchel. Mae dysgwyr yn frwdfrydig ac yn mwynhau eu dysgu. Mae llawer ohonynt yn awyddus i symud ymlaen i ddysgu pellach, cyflogaeth neu weithgareddau gwirfoddoli. Mae'r bartneriaeth yn gweithio i ddatblygu dull o werthuso dilyniant dysgwyr trwy ei darpariaeth yn fwy effeithiol.

Er gwaethaf y rhwystrau i'w lles yn sgil y pandemig, dywed dysgwyr fod ymgysylltu â dysgu yn y bartneriaeth yn cael effaith gadarnhaol ar eu bywydau, trwy eu helpu i gael gwaith, dysgu medr newydd, cefnogi dysgu eu plant, neu gyfoethogi eu bywydau trwy weithgareddau artistig a chymdeithasol.

Mae tiwtoriaid wedi'u paratoi'n dda ac yn cynllunio'n ofalus i ystyried anghenion dysgwyr, eu mannau cychwyn a'u dysgu hyd yn hyn. Mae ganddynt berthnasoedd parchus â'u dysgwyr ac yn ymatebol i'w hanghenion. O ganlyniad, mae dysgwyr wedi'u cymell yn dda ac yn dysgu medrau sy'n ddefnyddiol iddynt yn eu bywydau ehangach.

Mae tiwtoriaid yn gwneud yn siŵr fod dysgwyr yn gwybod beth mae angen iddynt ei wneud i lwyddo mewn asesiadau, ac mae dysgwyr yn teimlo eu bod wedi'u paratoi'n dda ar gyfer her eu gweithgareddau asesu.

Mae'r bartneriaeth yn cydnabod meysydd i'w gwella yn y graddau y mae dysgwyr yn cyfrannu at hunanwerthuso, a'r angen i gynyddu darpariaeth neu gael mynediad at ddarpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r bartneriaeth yn gweithio i fynd i'r afael â'r meysydd hyn i'w gwella.

## Argymhellion

A1 Gwerthuso dilyniant dysgwyr wrth iddynt ddechrau yn y ddarpariaeth, trwy gydol y ddarpariaeth, ac wedi iddynt adael

A2 Gwella'r graddau y mae dysgwyr yn cyfrannu at hunanwerthuso a gwaith y bartneriaeth

A3 Archwilio cyfleoedd i gynyddu darpariaeth neu gael mynediad at ddarpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y darparwr yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd y darparwr i baratoi astudiaethau achos ar ei waith i'w lledaenu ar ei wefan, yn ymwneud â'r canlynol:

- sefydlu partneriaeth effeithiol a chydlynol
- rhaglenni cyflogadwyedd
- gweithio mewn partneriaeth i wella ymwybyddiaeth dysgwyr o ganser a hyder i fanteisio ar ofal iechyd

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cryf yn eu dysgu o gymharu â'u mannau cychwyn, ac yn cynhyrchu gwaith o safon uchel. Maent yn frwdfrydig ac yn ymgysylltu'n dda mewn dosbarthiadau, a gyda thasgau a gweithgareddau sy'n cael eu cwblhau y tu allan i wersi. O ganlyniad, mae dysgwyr yn caffael ac yn datblygu gwybodaeth a medrau newydd, y mae llawer ohonynt yn eu cymhwyso'n dda yn eu rhaglen ddysgu a'u bywyd bob dydd, fel ei gilydd. Mae llawer o ddysgwyr yn awyddus i symud ymlaen i ddysgu pellach, cyflogaeth neu weithgareddau gwirfoddoli. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwybod ac yn deall canlyniadau eu hasesiadau cychwynnol ac yn ymwybodol o'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella'u medrau.

Mewn dosbarthiadau Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (SSIE), mae dysgwyr yn elwa ar lwybrau dilyniant clir, o fewn darpariaeth SSIE ac i mewn i ddarpariaeth ehangach, fel rhaglenni galwedigaethol a mynediad at addysg uwch. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymgysylltu'n dda â thiwtoriaid, dysgwyr eraill a deunyddiau dysgu. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr SSIE lefel 1, er enghraifft, yn deall ac yn ynganu geiriau Saesneg syml yn gywir, ac yn defnyddio geirfa sylfaenol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn darllen geiriau, ymadroddion a brawddegau syml yn gywir gyda goslef dda. Mae llawer ohonynt hefyd yn gallu gofyn cwestiynau syml sydd

angen atebion syml. Gall llawer mwy o ddysgwyr SSIE uwch ofyn cwestiynau mwy cymhleth.

Mae dysgwyr SSIE yn elwa ar waith ysgrifenedig yn cael ei farcio yn erbyn meini prawf asesu ar gyfer arholiadau. O ganlyniad, mae dysgwyr yn gwybod ar beth mae angen iddynt weithio er mwyn llwyddo yn eu harholiadau. Ceir nifer o enghreifftiau o ddysgwyr sydd wedi symud ymlaen trwy wahanol lefelau rhaglenni SSIE ac ymlaen i wahanol gyrsiau, gan gynnwys i addysg uwch.

Mae dysgwyr ar raglenni SSIE a mwy yn dysgu medrau galwedigaethol defnyddiol ochr yn ochr â’u hastudiaethau Saesneg. Er enghraifft, mae un dysgwr ar y rhaglen gyfrifyddu SSIE a mwy yn hunangyflogedig ac yn defnyddio medrau newydd mewn cyfrifyddu i’w helpu i wella’i gynllunio busnes a chadw cofnodion, yn ogystal â datblygu ei allu mewn Saesneg.

Mewn sesiynau dysgu teuluol, mae rhieni, gofalwyr, neiniau a theidiau a’u plant yn mwynhau gweithio gyda’i gilydd yn ysgol y plant. Mae dysgwyr yn defnyddio rhifau gyda’u plant, er enghraifft wrth weithio gydag arian neu i’w helpu i ddysgu ac atgyfnerthu eu gwaith yn yr ysgol, er enghraifft ar siapiau a bondiau rhif. Mae dysgwyr yn cyfrif yn Gymraeg, ac yn Saesneg yn ogystal, ac mae hyn yn eu helpu i atgyfnerthu dysgu eu plant. Mae dysgwyr yn cynorthwyo’i gilydd ac yn gweithio’n dda gyda’i gilydd. Mae’r rhan fwyaf o oedolion sy’n ddysgwyr mewn sesiynau dysgu teuluol yn gwneud cynnydd da yn y sesiynau hyn ac yn mwynhau defnyddio’r deunyddiau a’r gweithgareddau hwyliog y maent yn eu datblygu i atgyfnerthu ac ymestyn dysgu eu plant y tu allan i’r ysgol. Dywedodd un cyn-ddysgwr fod y cwrs wedi helpu rhoi mwy o hyder a hunan-barch iddi, yn ogystal â darparu cyfle i gyfarfod â phobl newydd. Mae hi bellach yn mwynhau gweithio fel cynorthwyydd addysgu yn ysgol ei phlant.

Mae dysgwyr hefyd yn mwynhau cael cyfle i gymryd rhan mewn ystod o gyrsiau ymgysylltu. Mewn cwrs gwnïo, mae dysgwyr yn datblygu eu medrau ar eu cyflymdra eu hunain, er enghraifft o weithred sylfaenol rhoi edau ar beiriant gwnïo a phwytho mewn llinell syth i ddefnyddio’r peiriant yn hyfedr i bwytho o gwmpas llinellau crymion a chysylltu pocedi wrth ddilledyn. Yn aml, mae’r rhaglenni hyn yn rhoi’r hyder i ddysgwyr symud ymlaen i gyrsiau eraill neu i weithgareddau gwirfoddoli. Er enghraifft, aeth dysgwyr ar raglen celf ailgylchu ymlaen i ddilyn cyrsiau SSIE a rhifedd a chwrs cyllidebu gyda’r cyngor lleol. Aeth dysgwr arall ymlaen i fod yn oruchwyliwr amser cinio mewn ysgol leol.

Ar gyrsiau cyflogadwyedd fel ‘cyflwyniad i ofal plant’, mae pob un o’r dysgwyr yn cymryd rhan yn dda. Maent yn caffael medrau newydd sydd nid yn unig yn eu helpu â dod o hyd i gyflogaeth neu fynd ymlaen i astudio ymhellach, ond hefyd i ddatblygu eu medrau personol mewn cynorthwyo’u plant ac aelodau o’u teulu. Mae dysgwyr ar raglen ddigidol canolfan waith yn defnyddio ystod o weithgareddau chwilio a hidlo sylfaenol i wella’u medrau digidol a’u helpu i ddod o hyd i swydd.

Mae’r bartneriaeth yn cefnogi ystod o gyrsiau adfer costau ar gyfer diddordeb personol. Mae llawer o ddysgwyr ar raglen sgwrsio yn Ffrangeg yn gwerthfawrogi’r cyfle i gynnal a datblygu eu medrau ymhellach dros sawl blwyddyn o fynychu. Ar gwrs crochenwaith, mae dysgwyr yn mwynhau gweithio gyda chlai, yn deall

gwydredd a’i briodoleddau ac yn ei gymhwyso’n effeithiol i greu potiau a cherfluniau defnyddiol neu addurnol.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Yn dilyn y pandemig, a’r argyfwng costau byw presennol, dywed llawer o ddysgwyr eu bod yn dioddef o orbryder, yn teimlo’n ynysig, ac wedi’u datgysylltu o gymdeithas a bod ganddynt amrywiaeth o broblemau iechyd meddwl sy’n effeithio ar eu lles.

Mae dysgwyr ar draws darpariaeth amrywiol y bartneriaeth yn dweud bod ymgysylltu â dysgu wedi bod yn fuddiol i’w lles, gan gynnwys gwella’u cyflogadwyedd, dysgu medr newydd, cefnogi dysgu eu plant, a chyfoethogi eu bywydau trwy weithgareddau artistig a chymdeithasol.

Ar draws y bartneriaeth, mae bron pob un o’r dysgwyr yn mwynhau eu gwaith, yn frwdfrydig ac yn cyfrannu’n dda yn y dosbarth. Maent yn falch o’u cyflawniadau mewn dysgu ac yn gwneud cynnydd mewn caffael iaith. Mewn sesiynau crefft, mae dysgwyr yn awyddus i ddangos yr arteffactau y maent wedi’u creu, ac yn esbonio sut mae mynychu dosbarth wedi gwella’u bywydau mewn amrywiaeth o ffyrdd.

Bron ym mhob dosbarth, ceir mwynhad a chwerthin a chymorth ar y ddwy ochr. Mae ethos ar draws y bartneriaeth fod dysgu’n hwyl, yn ogystal â phwyslais ar ei bwysigrwydd mewn cynyddu cyfleoedd mewn bywyd, gwella iechyd meddwl a lles a chreu cymunedau cynhwysol a ffyniannus.

Mae dysgwyr yn mwynhau cwmni ei gilydd, yn gwerthfawrogi cyflawniadau ei gilydd ac yn cynorthwyo ac yn helpu ei gilydd yn y dosbarth. Mae llawer o ddysgwyr wedi gwneud ffrindiau newydd, yn enwedig y rhai a oedd wedi’u hynysu yn ystod y pandemig. Mae llawer o ddysgwyr yn disgrifio sut mae cymryd rhan mewn dysgu oedolion yn y gymuned wedi newid eu bywydau.

Mewn dysgu teuluol, mae dysgwyr yn gwella lles eu teuluoedd trwy gefnogi addysg eu plant a chysylltu â bywyd yr ysgol a’r gymuned.

Mae’r dysgwyr hynny sy’n elwa ar ddarpariaeth wedi’i thargedu at ardaloedd llai breintiedig Caerdydd a Bro Morgannwg yn dysgu, er enghraifft, sut i goginio ar gyllideb ac yn defnyddio’r bwyd sydd ar gael mewn pantrïau cymunedol yn y ffordd orau y gallant. Maent yn datblygu dealltwriaeth well o goginio ar gyfer eu teuluoedd, yn rheoli eu cyllid, ac yn gwella’u medrau rhifedd.

Mae darpariaeth arbenigol ar gyfer menywod sydd wedi dioddef cam-drin yn eu galluogi i fyfyrio ar ddigwyddiadau a theimladau. Dywed cyfranogwyr yn y rhaglenni hyn eu bod yn gallu prosesu’r hyn sydd wedi digwydd iddynt yn well, dychwelyd i fyw bywydau cadarnhaol a chefnogi eu plant.

Mae dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol sy’n mynychu cyrsiau Cynhwysiant Anabledd mewn Addysg Gymunedol (DICE), yn ymweld â chanolfannau ac yn cymdeithasu â’u cyfoedion ac ystod ehangach o ddysgwyr. Maent yn gwella’u medrau, yn ymestyn eu gorwelion ac yn mwynhau eu hunain.

Mae dysgwyr mewn dosbarthiadau ymgysylltu a dosbarthiadau adfer costau nid yn unig yn dysgu medrau newydd sy’n ddifyr a boddhaus ond yn gwneud ffrindiau

newydd hefyd. Maent yn dysgu creu crochenwaith, peintio a gwnïo, gan ailgylchu ac addasu deunyddiau yn aml. Mae’r rhai mewn dosbarthiadau ymgysylltu yn profi mathau o ddysgu na fyddent yn cael mynediad atynt fel arfer. Mae hyn yn ehangu eu gorwelion, yn gwella’u hiechyd meddwl a chorfforol ac yn creu opsiynau newydd ar gyfer dysgu posibl iddynt. Ceir enghreifftiau o ddysgwyr yn symud ymlaen o ddosbarthiadau ymgysylltu i ddysgu cymunedol mwy ffurfiol, wedyn hyfforddi ar lefelau uwch a dechrau cyflogaeth.

Mae dysgwyr SSIE yn gwella’u lles ac ansawdd eu bywyd trwy gaffael iaith ac yn elwa ar y gwasanaethau cymorth sydd ar gael iddynt trwy’r bartneriaeth. Mae dysgwyr o bob cenedligrwydd yn teimlo’u bod yn cael eu cynnwys yn fwy, ac yn ennill dealltwriaeth o’i gilydd trwy’r bartneriaeth yn hyrwyddo gwybodaeth am wyliau crefyddol, digwyddiadau cymunedol a digwyddiadau i hyrwyddo coginio ac arferion o wahanol genedligrwydd a phrofiadau ffoaduriaid.

Mae’r bartneriaeth wedi rhoi camau ar waith i helpu dysgwyr i fod yn wydn a dyfalbarhau â’u gweithgareddau dysgu. Mae llawer o diwtoriaid wedi hyfforddi fel hyrwyddwyr lles. Mae tiwtoriaid hefyd yn gwella’u lles eu hunain trwy ryngweithio â’u dysgwyr a thrwy’r amrywiaeth o gymorth â lles a gynigir gan y bartneriaeth.

Mewn ychydig o ddosbarthiadau, mae presenoldeb yn afreolaidd. Fodd bynnag, mae tiwtoriaid, yn gyffredinol, yn gwybod y rhesymau am absenoldeb o ddosbarthiadau, ac mae’r bartneriaeth yn deall pam nad yw oedolion sy’n ddysgwyr bob amser yn mynychu’n rheolaidd, ac effaith hir gorbryder yn sgil COVID-19.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae’r bartneriaeth yn gweithio gyda’i gilydd yn hynod effeithiol i ddarparu ystod eang o gyrsiau achrededig a chyrsiau heb eu hachredu i ddiwallu anghenion amrywiol ei dysgwyr a’i chymunedau. Mae anghenion dysgwyr yn ganolog i holl gynllunio’r bartneriaeth ac, yn ogystal â monitro’r ddarpariaeth i leihau’r dyblygu a sicrhau cynaliadwyedd cyrsiau, mae’r bartneriaeth yn flaengar. Mae’n rhoi ystyriaeth dda i wybodaeth am y farchnad lafur ac yn ymateb yn gyflym i feysydd twf posibl yn y farchnad swyddi leol fel bod dysgwyr mewn sefyllfa dda i fanteisio ar gyfleoedd presennol a chyfleoedd newydd. Mae’r bartneriaeth yn cydnabod bod angen iddi ddeall a dangos yn llawnach effaith dysgu oedolion yn y gymuned ar fywydau dysgwyr ac economi Cymru, ac mae’n ymgymryd â gwaith ymchwil i fynegi’n glir beth yw effaith hynny.

Yn ogystal â’i darpariaeth graidd a ariennir gan Lywodraeth Cymru, mae’r bartneriaeth yn darparu ystod ddeniadol o gyrsiau budd personol, fel creu gemwaith a gofaint arian, ysgrifennu creadigol, ‘tyfu’ch llysiau eich hun’ a sgwrsio uwch mewn Ffrangeg, y mae dysgwyr yn talu’r gost lawn amdanynt.

Mae gan y bartneriaeth fecanweithiau effeithiol iawn ar waith trwy REACH (Hyb Canolog Asesu SSIE Rhanbarthol) i asesu pob un o’r dysgwyr yn yr ardal sydd eisiau ymuno â chyrsiau SSIE. Mae galw cryf am gyrsiau o’r fath. Mae aseswyr yn rhoi dysgwyr ar gyrsiau amser llawn, rhan-amser neu gyrsiau cymunedol fel sy’n gweddu orau i’w lefelau cychwynnol a’u hanghenion dysgu. Mae’r bartneriaeth yn cynorthwyo’r dysgwyr ar restrau aros yn dda trwy ddarparu dosbarthiadau sgwrsio anffurfiol.

Er mwyn paratoi dysgwyr SSIE ymhellach ar gyfer bywyd yng Nghymru, mae'r bartneriaeth yn cynnig rhaglen o gyrsiau SSIE a mwy, y gall dysgwyr mwy datblygedig ddatblygu eu Saesneg mewn cyd-destun galwedigaethol ymhellach trwyddynt, fel Gweinyddu Busnes neu Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'r cyrsiau hyn yn galluogi dysgwyr i wella a chymhwyso'u medrau iaith a datblygu medrau galwedigaethol a dealltwriaeth ddefnyddiol o'r byd gwaith yng Nghymru hefyd.

Pan mae'r bartneriaeth yn canfod bod gan ddysgwyr angen penodol a bod bwlch yn y ddarpariaeth, mae'n gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid eraill i fynd i'r afael â'r mater. Enghraifft o hyn yw pan weithiodd y bartneriaeth yn llwyddiannus gyda Chanolfan Ganser Felindre i gynhyrchu deunyddiau i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth dysgwyr SSIE o arwyddion a symptomau canser, a'r eirfa i'w trafod gyda staff meddygol.

Caiff dysgwyr SSIE gyfle i gymryd rhan mewn sesiynau CSIE (Cymraeg ar gyfer dysgwyr SSIE). Mae hyn yn eu helpu i ddeall Cymraeg sylfaenol, a threftadaeth a diwylliant Cymru. Yn ychwanegol, mae'r bartneriaeth yn rhoi cyfle i ddysgwyr gyfarfod â rhanddeiliaid busnes o Gymru i ystyried llwybrau gyrfa. Mae'r bartneriaeth yn dechrau cyfeirio dysgwyr at ddarpariaeth sy'n cael ei haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg trwy gryfhau ei chysylltiadau â Menter Caerdydd a Menter Y Fro. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae hyn.

Mae gan y bartneriaeth ffocws cryf ar helpu dysgwyr i wella'u medrau i ennill swydd. Mae'n gwneud hyn trwy ystod dra ystyriol o weithgareddau a allai ddechrau trwy bartneru dysgwr â mentor cyflogaeth, y dysgwr yn symud i gwrs rhagarweiniol heb ei achredu ac wedyn ymlaen i ddarpariaeth achrededig yn un o 'academïau galwedigaethol' y bartneriaeth, sy'n canolbwyntio'n glir ar y blaenoriaethau rhanbarthol ar gyfer gwaith. Yn ychwanegol, mae'r bartneriaeth yn trefnu ffeiriau cyflogaeth yn rheolaidd i helpu dysgwyr i ddod i wybod am wahanol alwedigaethau, swyddi sydd ar gael a chyfarfod â darpar gyflogwyr. Mae cyrsiau fel y cynllun 'Employable Me' yn darparu medrau sylfaenol yn ddefnyddiol i ddysgwyr mewn meysydd fel cymorth cyntaf, gwasanaeth cwsmeriaid ac iechyd a diogelwch.

Mae'r bartneriaeth yn darparu ystod ddefnyddiol o gyrsiau dysgu teuluol ar y cyd ag ysgolion cynradd lleol. Mae'r sesiynau hyn yn rhoi'r cyfle i aelodau o'r teulu ddysgu am sut mae ysgolion yn addysgu meysydd pwnc penodol ac i ddatblygu medrau tebyg i helpu eu plant gartref. Mae'r cyrsiau hyn yn darparu porth i ddysgwyr i ddysgu pellach ac mae'r bartneriaeth yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i'r dysgwyr hyn am ystod y cyrsiau a gynigir ac yn tywys dysgwyr at ddarpariaeth briodol.

Mae'r bartneriaeth yn cynnig cyfuniad addas o ddarpariaeth wyneb yn wyneb a darpariaeth ar-lein. Cynigir darpariaeth wyneb yn wyneb mewn lleoliadau canolog a lleoliadau cymunedol sy'n cynnwys offer da, ac yn darparu mynediad hawdd i ddysgwyr, ar y cyfan. Mae dosbarthiadau ar-lein yn cynorthwyo dysgwyr rhan-amser i ymgorffori dysgu ochr yn ochr ag ymrwymiadau eraill.

Mae tiwtoriaid wedi'u paratoi'n dda ac yn cynllunio'n ofalus i ystyried anghenion, mannau cychwyn a dysgu'r dysgwyr hyd yn hyn. Mae tiwtoriaid yn briodol o ymatebol i anghenion dysgwyr o fewn eu sesiynau cynlluniedig, gan wella cymhelliant dysgwyr wrth iddynt ddysgu medrau sy'n ddefnyddiol yn eu bywydau ehangach.

Mae tiwtoriaid yn datblygu perthnasoedd parchus ac yn adnabod eu dysgwyr yn dda. Mae tiwtoriaid yn gwneud defnydd effeithiol o gymorth cyfoedion a dysgu cyfoedion, sy'n golygu bod cyfleoedd ar gyfer dysgu cydweithredol yn cael eu defnyddio'n dda. Maent yn cynllunio cyfansoddiad parau a grwpiau i helpu dysgwyr i symud ymlaen yn eu dysgu.

Mae tiwtoriaid yn dewis testunau sy'n ddiddorol i ddysgwyr ac yn uniaethu'n dda â'u bywydau ehangach, ac yn creu a defnyddio adnoddau addas o ansawdd uchel. Mae llawer o diwtoriaid yn rhannu adnoddau addysgu yn ddigidol gyda dysgwyr sy'n galluogi iddynt ymgysylltu y tu allan i sesiynau wedi'u haddysgu. Mae llawer o diwtoriaid yn gwneud defnydd da o dechnoleg ddysgu yn yr ystafell ddosbarth ac yn dangos lefelau da o hyder wrth ddefnyddio offer digidol ar gyfer gwaith grŵp a thasgau cydweithredol mewn sesiynau ar-lein.

Mae llawer o diwtoriaid yn defnyddio gweithgareddau dechreuol bywiog sy'n ennyn diddordeb dysgwyr. Mae bron pob un o'r tiwtoriaid yn ymateb i sut mae dysgwyr yn gwneud cynnydd wrth weithio trwy weithgareddau a thasgau, ac yn addasu cyflymdra'u sesiynau yn unol â hynny.

Mae bron pob un o'r tiwtoriaid yn rhoi cyfarwyddiadau ac esboniadau clir sy'n briodol i lefel y dysgu, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn rheoli sesiynau fel bod pob un o'r dysgwyr yn cael cyfle i gyfrannu.

Mae tiwtoriaid yn asesu gwaith a chynnydd dysgwyr yn rheolaidd yn y dosbarth. Maent yn rhoi adborth llafar neu ysgrifenedig defnyddiol i ddysgwyr unigol sy'n eu helpu i wella, tra'n cydnabod eu cyflawniadau hefyd.

Mewn dosbarthiadau achrededig, mae tiwtoriaid yn gwneud yn siŵr fod dysgwyr yn gwybod beth mae angen iddynt ei wneud i lwyddo, a bod dysgwyr yn deall sut i ddangos y medrau y maent wedi'u dysgu mewn tasgau asesu crynodol o ganlyniad. Mae tiwtoriaid yn dangos lefelau uchel o hyder ym mhotensial dysgwyr i lwyddo, ac mae dysgwyr yn teimlo'u bod wedi'u paratoi'n dda ar gyfer her eu gweithgareddau asesu o ganlyniad.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae pob un o'r pedwar darparwr yn y bartneriaeth yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i hysbysebu eu cyrsiau i'r cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys copïau caled o brosbectysau, platfformau cyfryngau cymdeithasol a gwefannau. Mae'r wybodaeth hon yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i ddarpar ddysgwyr er mwyn iddynt allu dewis y cwrs sy'n gweddu i'w hanghenion. Ond, gan nad yw gwefannau a phlatfformau darparwyr unigol wedi'u cysylltu â'i gilydd, nid oes darlun llawn o'r ddarpariaeth helaeth sydd ar gael ar draws y bartneriaeth ar gael iddynt yn rhwydd. Ar hyn o bryd, nid yw gwefannau pob darparwr yn hygyrch nac yn hawdd eu llywio i siaradwyr Cymraeg sy'n dymuno chwilio am gyrsiau a gynigir gan y bartneriaeth neu ddarparwyr allanol trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r bartneriaeth yn cydnabod hyn ac yn cymryd camau i gyflawni'r nod hwn.

Mae'r bartneriaeth yn canolbwyntio'n effeithiol ar ddiwallu anghenion poblogaeth amrywiol Caerdydd a Bro Morgannwg. Mae darparwyr unigol yn gweithredu gweithdrefnau i sicrhau bod dysgwyr yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt i gael

mynediad at eu cyrsiau, ac elwa arnynt yn llawn. O fewn y bartneriaeth, mae darparwyr yn rhannu arfer dda â'i gilydd yn ddefnyddiol. Er enghraifft, cafodd cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol (CydADY) Addysg Oedolion Cymru gyfle i gysgodi gwaith CydADY Coleg Caerdydd a'r Fro, gan arwain at ddeialog broffesiynol wedi'i hanelu at wella darpariaeth arbenigol ar gyfer dysgwyr. Mae'r bartneriaeth yn cydnabod bod angen gwella'i threfniadau ar gyfer monitro ansawdd ac effaith y cymorth ar gyfer dysgwyr.

Mae'r bartneriaeth yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr â phroblemau iechyd meddwl neu anawsterau dysgu ddilyn cyrsiau achrededig fel rhan o raglenni dysgu ar gyfer gwaith a dysgu ar gyfer bywyd Cynhwysiant Anabledd mewn Addysg Gymunedol (DICE) Llywodraeth Cymru. Cynigir y cyrsiau hyn yn rhad ac am ddim neu am brisiau isel iawn i annog cyfranogiad gan ddysgwyr na fyddent efallai'n gallu elwa ar gyfleoedd o'r fath fel arall.

Mae darparwyr yn canolbwyntio'n fuddiol ar hyrwyddo dewisiadau am ffyrdd iach o fyw i ddysgwyr, yn ogystal â helpu dysgwyr i ddeall cysyniadau cydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae darparwyr unigol yn addasu'r negeseuon hyn yn fedrus o fewn cyd-destunau sy'n berthnasol i'w dysgwyr eu hunain, er enghraifft yn ystod sesiynau tiwtorial, mewn deunyddiau cyrsiau neu mewn digwyddiadau teilwredig penodol, fel diwrnodau gwrth-hiliaeth. Mae'r bartneriaeth yn annog dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth o ddiwylliant, y gymuned, a'r byd ehangach. Mae dysgwyr SSIE yn dangos parch at eu cyfoedion o wahanol ddiwylliannau a gwledydd ac yn dysgu'n llwyddiannus am bwysigrwydd democratiaeth, rheol y gyfraith a rhyddid yr unigolyn mewn cymdeithas Brydeinig. Er enghraifft, gall dysgwyr SSIE gael mynediad at gyrsiau i'w harfogi â'r wybodaeth hanesyddol a diwylliannol i lwyddo ym Mhrawf Dinasyddiaeth y DU. Hefyd, gallant gael mynediad at gyrsiau i esbonio bod angen i bob gyrrwr yn y DU gydymffurfio â gofynion cyfreithiol fel profion MOT ac yswiriant dilys, tra'n eu helpu i gaffael y medrau iaith a'r eirfa i wneud hynny'n llwyddiannus, hefyd.

Mae'r bartneriaeth yn gweithio'n effeithiol i sicrhau nad yw darparwyr yn dyblygu darpariaeth, ac yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i staff a dysgwyr ynghylch llwybrau dilyniant posibl o fewn y bartneriaeth, a'r tu allan, neu i mewn i gyflogaeth. Er enghraifft, mae dysgwyr ar gyrsiau wedi'u hanelu at y rhai sy'n dymuno gweithio ym maes gofal yn gallu troi at fentor cyflogaeth sy'n eu cynorthwyo trwy gydol y cwrs ac yn eu helpu i fanteisio ar gyfleoedd cyflogaeth. Mae'r bartneriaeth hefyd yn darparu cyfleoedd i ddysgwyr elwa ar y cymorth a'r hyfforddiant a gynigir gan ddarparwyr eraill nad ydynt wedi'u cysylltu'n ffurfiol â'r bartneriaeth. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw prosesau i fonitro a gwerthuso dilyniant dysgwyr i ddarpariaeth y bartneriaeth, trwyddi, ac oddi yno, wedi'u datblygu'n ddigonol ar hyn o bryd.

Mae'r bartneriaeth yn gweithredu strategaeth ymglymiad dysgwyr, sy'n defnyddio gweithdrefnau llais y dysgwr darparwyr unigol i wella gallu dysgwyr i gyfrannu'n effeithiol at benderfyniadau am eu dysgu. Ceir enghreifftiau o weithio cydweithredol cadarnhaol, er enghraifft darparwyr yr awdurdod lleol yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i lunio arolwg dysgwyr ar y cyd. Mae'r bartneriaeth yn gwerthfawrogi barn dysgwyr ac yn ymateb iddi'n briodol, er enghraifft trwy newid amseroedd cyrsiau i gyd-fynd â chyfrifoldebau rhieni a gofalwyr a chynnal cyrsiau ar y penwythnos. Fodd bynnag, mae nifer y dysgwyr sy'n ymgymryd â gweithgareddau llais y dysgwr yn is nag yn y

cyfnod cyn y pandemig. At ei gilydd, megis dechrau datblygu y mae prosesau'r bartneriaeth i werthuso effaith llais y dysgwr.

Mae partneriaid yn gweithio'n ddiwyd i nodi dysgwyr bregus neu'r rhai sydd mewn perygl o radicaleiddio mewn ffyrdd sy'n briodol i gyd-destunau eu sefydliadau eu hunain. Maent yn cydweithredu'n effeithiol i rannu gwybodaeth i hyrwyddo arferion diogel ar draws y bartneriaeth. Mae darparwyr yn sicrhau bod tiwtoriaid wedi'u harfogi'n dda i gyfleu peryglon eithafiaeth a radicaleiddio a sut i ymateb yn briodol i bryderon neu risgiau posibl, pe bai angen. Mae trefniadau'r bartneriaeth ar gyfer diogelu dysgwyr yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth**

Mae hon yn bartneriaeth hynod effeithiol sydd â gweledigaeth glir ac eglur ar gyfer ei diben, ei chyfeiriad a'i darpariaeth. Mae'r weledigaeth wedi'i gwreiddio yn ymrwymiad y bartneriaeth i wella'r cyfleoedd bywyd ar gyfer oedolion sy'n ddysgwyr yn ei chymunedau amrywiol. Mae'r penderfyniadau a wneir gan arweinwyr ar bob lefel yn adlewyrchu gweledigaeth y bartneriaeth ac yn dangos agwedd 'gallu gwneud' at fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu'r dysgwyr a'r cymunedau y mae'r bartneriaeth yn eu gwasanaethu.

Mae arweinwyr strategol o'r pedwar partner yn rhannu a deall y weledigaeth ac yn alinio gwaith ac adnoddau eu sefydliadau i gefnogi'r bartneriaeth yn effeithiol, yn gydweithredol ac yn arloesol. Mae arweinwyr strategol yn weithgar o ran ffurfio a chyfrannu at y drafodaeth genedlaethol am ddyfodol dysgu oedolion yn y gymuned.

Ers ei ffurfio yn 2013, mae'r bartneriaeth wedi gweddnewid i fod yn gorff sefydledig ac aeddfed, ac adlewyrchir hyn yn y trefniadau gweithio teg ac agored. Mae uwch arweinwyr o bob partner yn cyfarfod yn rheolaidd i gydlynu gwaith y bartneriaeth. Ceir cyfathrebu cryf rhwng partneriaid.

Mae arweinwyr gweithredol yn brofiadol ac yn deall eu darpariaeth yn dda. Maent yn rhannu gwerthoedd y bartneriaeth ac yn cyfranogi'n bwrpasol yn ei gwaith. Mae gan y bartneriaeth strwythur grŵp defnyddiol i helpu trefnu a chydlynu ei gwaith. Mae addysgu a dysgu, ymglymiad dysgwyr a grwpiau ansawdd a data yn bwydo i mewn i grŵp strategaeth lefel uchel. Mae arweinwyr gweithredol o bob partner yn aelodau o'r grwpiau hyn ac yn cyfrannu'n bwrpasol at arweinyddiaeth a chyfeiriad strategol y bartneriaeth.

Mae arweinwyr ar bob lefel o fewn y bartneriaeth yn meddu ar ddealltwriaeth dda o anghenion ei hystod amrywiol o gymunedau, ac yn cynllunio darpariaeth yn ofalus ac yn fwriadol i ddiwallu eu hanghenion. Ceir llawer o enghreifftiau o ddarpariaeth a ddatblygwyd i helpu oedolion i ddechrau mewn addysg, elwa ar hyfforddiant ac wedyn cael mynediad at gyflogaeth. Er enghraifft, ceir darpariaeth SSIE sylweddol ar gyfer y nifer fawr o siaradwyr ieithoedd eraill sy'n byw o fewn ardal y bartneriaeth. Ategir hyn gan ddarpariaeth 'SSIE a mwy' sy'n cyfuno dysgu Saesneg â hyfforddiant galwedigaethol i roi cyfleoedd i ddysgwyr symud i gyflogaeth, yn ogystal â gwella'u Saesneg. Mae 'academïau galwedigaethol' y bartneriaeth fel yr Academi Gofal yn cynnig llwybrau wedi'u cynllunio'n glir ar gyfer oedolion sy'n chwilio am waith yn y sector gofal trwy broses ymsefydlu, hyfforddiant rhagarweiniol dwys, cymwysterau achrededig a chyfleoedd i gyfarfod â chyflogwyr yn y sector. Mae'r ddarpariaeth yn yr

enghreifftiau hyn yn defnyddio adnoddau ar draws y bartneriaeth ac yn dangos effaith arweinwyr yn cynllunio'u darpariaeth gan gadw anghenion cymunedau mewn cof.

Mae'r bartneriaeth wedi lleoli ei darpariaeth mewn ardaloedd y mae dysgwyr yn cael mynediad syml atynt, fel canolfannau cymunedol, ysgolion, llyfrgelloedd, a lleoliadau cyfleus eraill. Mae'r rhain hefyd yn gweithredu fel hybiau cymunedol ar gyfer gwybodaeth, cyngor ac arweiniad.

Mae gan y bartneriaeth brosesau hunanwerthuso cadarn a chynlluniedig y mae'r holl bartneriaid yn cyfrannu atynt, a gwerthfawrogiad realistig o'i chryfderau ei hun a'r meysydd i'w gwella. Fel rhan o'r prosesau hyn, mae partneriaid yn cynnal arsylwadau o addysgu a dysgu a theithiau dysgu defnyddiol ar draws darpariaeth ei gilydd i helpu cymedroli eu gwerthuso a deall y ddarpariaeth yn well. Mae'r bartneriaeth yn gweithio tuag at ddull ar gyfer gwerthuso dilyniant dysgwyr ar draws eu darpariaeth ac ymlaen i addysg bellach neu gyflogaeth. Mae gan y bartneriaeth gynllun lefel uchel priodol ar gyfer gwella ansawdd.

Er bod y bartneriaeth yn defnyddio ystod o ffyrdd i ymgorffori safbwyntiau a phrofiadau dysgwyr yn eu hunanwerthuso, mae'n cydnabod y gellir gwella'r rhain.

Cedwir mewn cysylltiad â staff ar draws y bartneriaeth am ddatblygiadau trwy gylchlythyr staff ledled y bartneriaeth. Mae staff o bob un o'r darparwyr sy'n cyflenwi darpariaeth graidd y bartneriaeth yn cael mynediad at borth e-ddysgu Coleg Caerdydd a'r Fro i gynnal hyfforddiant ar-lein ar ystod ddefnyddiol o destunau fel diogelwch gwybodaeth, diogelu, Atal (Prevent) neu ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol yn gyfrifol. Mae darparwyr unigol hefyd yn cynnig hyfforddiant i'w staff eu hunain yn canolbwyntio ar yr anghenion a nodwyd ym mhob darparwr. Mae testunau wedi cynnwys ymwybyddiaeth iechyd meddwl, ymgorffori'r Gymraeg a'i diwylliant, a sesiynau ar gyfer rhannu arfer dda o ran addysgu. Nid yw digwyddiadau dysgu proffesiynol ar draws y bartneriaeth wedi cael eu cynnal dros y blynyddoedd diwethaf oherwydd y pandemig, ond disgwylir iddynt ailddechrau yn yr haf eleni.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i ddysgwyr a'r holiadur i staff

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cyfarfod â chadeirydd y bartneriaeth, llywodraethwyr (lle bo'n briodol), uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol, i werthuso effaith gwaith y bartneriaeth
- yn cyfarfod â dysgwyr i drafod eu gwaith, a gwrando ar eu barn am agweddau amrywiol ar eu darparwr
- yn ymweld â sampl eang o sesiynau
- yn arsylwi dysgwyr y tu allan i sesiynau, ac yn siarad â nhw
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r bartneriaeth
- yn ystyried cynllun gwella ansawdd y bartneriaeth ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r bartneriaeth wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth eang o ddogfennau'r bartneriaeth, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd dysgwyr, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol (lle bo'n briodol), gwybodaeth am les dysgwyr, gan gynnwys diogelu dysgwyr, a chofnodion hyfforddiant a dysgu proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, bu Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y bartneriaeth ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  12/07/2023